

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR Y.C. A GYNHALIWDYD AR NOS LUN 30AIN O IONAWR 2017 YN YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AM 7.30 O'R GLOCH.

1. PRESENNOL: Y Cyngorwyr Bari Evans (Cadeirydd), Philip Williams, Hywel Davies, Iona Edwards-Jones, Jill Evans, Stanley Williams, Iwan Jones, Elfed Williams, Cyngorydd Sir Ddinbych Joseph Welch a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Falmai Evans a Gwennan Hughes.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 28ain o Dachwedd 2016 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl cadarnhad oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych os maent wedi symud y teiars a'r ochr y ffordd yn Carreg-y-Pennill a Llwyn Rhos yn Llanrhaeadr.

B. Derbyniwyd adroddiad gan y Cyngorydd Elfed Williams ynglŷn ar bwyllgor a gynhaliwyd yn ystod y mis gyda'r mudiadau lleol sydd â diddordeb i gyfrannu at gost i "Diffibriliwr" yn Llanrhaeadr (yn gynnwys Cyngor Cymuned Llanrhaeadr). Ar ôl trafodaeth penderfynwyd yr aelodau i glustnodi £200.00 tuag at y gost.

5. SGIPIADAU CYMUNEDOL.

Ar ôl trafodaeth penderfynwyd yr aelodau i gael tair sgip am ddiwrnod yr un yn ystod gwyliau'r Pasg yn Llanrhaeadr, Prion a Saron ac i'r Clerc ofyn am brisiau am lochi'r sgip oddi wrth y cwmnïau canlynol:-

A: CAD Recycling yn Neganwy.

B. City Skips yn Llanelwy.

C. Cwmni I.T. Williams yn Rhuthun.

6. CYLCHLYTHYR CYMUNEDOL.

Derbyniwyd cadarnhad oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych fod rhaid i'r manylion cylchlythyr y Cyngor fod yn ddwylo'r Cyngor Sir erbyn cychwyn mis Ionawr pob flwyddyn i fynd allan gyda'r trethi'r Cyngor Sir Ddinbych. Nodwyd y dyddiad i'r dyfodol.

7. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £15,650.00.

B. Derbyniwyd rhan olaf o'r Precept am y flwyddyn ariannol 2016/17 - £3,992.00.

C. Taliad i'r Cyngor Sir Ddinbych am gyfarfod blaenorol y Cyngor - £15.00.

D. Precept 2017/18 y Cyngor - ar ôl trafodaeth penderfynwyd gadael y Precept ar £24.00 y preswyl yn y gymuned am y flwyddyn ariannol 2017/18 sydyn cynhyrchu incwm o £11,880.00 ar y 495 o dai yn y gymuned.

## 8. MATERION CYNLLUNIO.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Codi garej driphlyg gyda lle storio i'r llawr cyntaf (manylion diwygiedig i rai a gymeradwywyd eisoes) ym Muarth Pentre' Llech, Llanrhaeadr.
2. Codi estyniad ochr unllaw'r yn Pen-y-Waen, Llanrhaeadr.

B. Ceisiadau cynllunio:-

1. Dymchwel yr ystafell wydr presennol ac adeiladu estyniad cefn unllaw'r yn 4 Pont-y-Bedol, Llanrhaeadr - dim gwrthwynebiad.
2. Addasiadau ac estyniad i annedd yn Tyn Bedw, Prion – dim gwrthwynebiad.

C. Derbyniwyd manylion cais cynllunio mae'r perchennog Parc Carafanau Cae'r Mynydd, Saron am roi i'r Cyngor Sir Ddinbych am newidiadau i'r Maes Carafanau. Nodwyd yr aelodau'r ohebiaeth a phenderfynwyd aros hyd i'r manylion y cais cynllunio trwy'r Cyngor Sir Ddinbych ac i hysbysu'r Cyngor Sir Ddinbych bod gwaith ar y cais cynllunio wedi cychwyn yn barod.

## 9. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

## 10. UNRHYW FATER ARALL.

Penderfynwyd y Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar ganlynol:-

- A: Cyflwr blêr ffin safle'r Adran Briffyrdd wrth Brÿn Glas, Saron.
- B. Ffordd yn rhoi/suddo wrth Brÿn Glas yn Saron.
- C. Cyflwr y ffordd Allt-y-Porth wrth Meifod yn Saron.

11. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 27ain o Chwefror 2017 yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr am 7.30 o'r gloch.